

# Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	<b>Rhys Morgan</b>
Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mawrth 2021	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru">SeneddDGCh@senedd.cymru</a>

---

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.00–09.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2 Papur(au) i'w nodi

#### 2.1 Gohebiaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ynglŷn â cherddoriaeth fyw

(Tudalennau 1 – 6)

#### 2.2 Gohebiaeth â Chyngor Caerdydd ynghylch Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd

(Tudalennau 7 – 10)

#### 2.3 Llythyr at y BBC yn gofyn am wybodaeth atodol

(Tudalennau 11 – 12)

#### 2.4 Llythyr at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch ffioedd y drwydded

(Tudalennau 13 – 14)

#### 2.5 Llythyr at y Dirprwy Weinidog Diwylliant ynghylch cyllid ychwanegol Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant

(Tudalennau 15 – 16)

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod



**4 Adroddiad gwaddol y Pumed Senedd: trafodaeth ar yr adroddiad drafft**

(09.30–10.15)

(Tudalennau 17 – 40)



## Trowch y sain i fyny: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw

Y Senedd: Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

### Ymateb gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth fyw i Gymru. Rydym ni am i bobl Cymru allu creu a phrofi cerddoriaeth fyw a chymryd rhan ynddi ar eu telerau eu hunain. Ond yn ôl *Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys, Ni Chawn ein Dileu*, cymunedau difreintiedig mae anghydraddoldeb wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.

Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar un maes pwysig o'r diwydiant cerddoriaeth. Ond mae sawl math ar gerddoriaeth fyw ac mae'n digwydd mewn sawl man. Rhaid inni gydnabod bod rhai lleisiau a gweithgarwch ar goll o'r adroddiad.

Fel sefydliad rydym ni'n meddwl am sut y gallwn fynd i'r afael â hyn. Ein nod yw sicrhau bod tegwch ac amrywiaeth yn ganolog i'n gwaith a'n harian. Yn ogystal â chynnal yr asedau sydd yn y maes ac adeiladu arnynt, rhaid inni ystyried yr hyn nad yw'n cael ei ariannu. Rhaid diwallu'r anghenion yn well i wneud yn siŵr bod cerddoriaeth fyw'n cael ei chefnogi'n gynhwysol.

Mae Cymru Greadigol newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r tîm yr un mor awyddus i roi amrywiaeth wrth wraidd y gwaith gan bwysleisio cerddoriaeth sy'n cael llai o arian a chefnogaeth. Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda'r tîm wrth i ni'n dau fuddsoddi yn y maes.

Bydd gennym swyddogaethau gwahanol. Rhaid bod yn glir am y gwaith y gallwn ei wneud orau a sut y gallwn gydweithio. Er enghraifft, mae Cymru Greadigol yn arwain ar gymorth busnes i leoliadau cerddorol, ond gall lleoliadau hefyd ymgeisio i'r Cyngor am brosiectau o fudd diwylliannol a cyhoeddus clir. Rhaid gwneud hyn gyda'r diffiniad ehangaf o'r diwydiant a'r cerddorion gan weithio gyda nhw yn hytrach nac arwain eu gwaith. Byddwn ni'n gweithio i gyfuno'r gwaith a llunio cynllun gweithredu i nodi'r cyfleoedd yn glir.

Dyma ein hymatebion i argymhellion yr adroddiad sy'n berthnasol i ni.

#### Argymhelliad 4

Dylai arianwyr cyhoeddus deilwra'r cymorth y maent yn ei roi i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs sy'n digwydd yn Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol ddod â chymunedau sy'n wahanol o ran iaith a math ar gerddoriaeth at ei gilydd i gydweithio.

Rydym ni'n awyddus i ddatblygu gwaith yn y Gymraeg. Rydym ni am fuddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gallu a sgiliau artistiaid, cerddorion a gweithwyr sydd am weithio yn Gymraeg. Mae'r uchelgais yn sail i'n strategaeth, ein hariannu a'n meini prawf asesu grantiau.

Disgwyliwn i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn eu dewis iaith, boed yn aelodau o gynulleidfa, cyfranogwyr neu artistiaid. Mae hyn yn digwydd mewn prosiectau a ariennir megis Forté, Gorwelion a Focus Cymru. Mae'r rhain yn gweithio gydag artistiaid sy'n creu cerddoriaeth yn y ddwy iaith.

Mae ein cynllun, Noson Allan, yn cefnogi grwpiau cymunedol i hyrwyddo sioeau yn eu lleoliadau sy'n cynnwys cerddoriaeth Gymraeg. Cyn y pandemig roeddem ni'n gweithio gyda PYST a Dydd Miwsig Cymru i annog cymryd rhan gan hyrwyddwyr ifanc ym maes cerddoriaeth Gymraeg. Gobeithio gwneud hyn eto pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Mae Pwyllgor Cymraeg y Cyngor yn craffu ar ystod, effaith ac effeithiolrwydd ein gweithgarwch Cymraeg. Mae'n ystyried ein gwaith presennol, pennu blaenoriaethau at y dyfodol ac archwilio'r data ariannu a'i gyflwyno yn ein Hadroddiad Blynyddol am y Gymraeg.

Rydym ni hefyd yn cydnabod bod bron i 80% o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cymunedau sydd dan anfantais economaidd. I gefnogi hygyrchedd, rhaid cydnabod bod llawer yn profi rhwystrau oherwydd tlodi i gyrraedd cerddoriaeth a'r celfyddydau.

### **Argymhelliad 10**

Mae llawer o adeiladau y tu allan i ardaloedd trefol – gan gynnwys canolfannau celfyddydol – yn cael arian cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor y Celfyddydau. Dylai arianwyr ystyried gosod amodau ar eu grantiau i agor y lleoedd yma i gerddorion ymarfer ynddynt, lle y bo'n bosibl.

Mae'r lleoliadau a ariannwn gan refeniw fel rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn fwy nac adeiladau. Mae'r timau sy'n eu rhedeg yn gweithio'n agos gyda'u cymuned i'w gwasanaethu. Mae hyn yn wir hyd yn oed yn ystod y pandemig.

Rhaid iddynt hefyd gynhyrchu incwm o'u hadnoddau, gan gynnwys o logi ystafelloedd yn fasnachol. Rhaid cadw'r ddysgl yn wastad. Pan fydd galw gan y gymuned am wasanaeth ac nad oes unrhyw gyfleusterau addas eraill, byddem ni'n annog y lleoliad i ddod o hyd i ffyrdd o ddiwallu'r angen. Ond rhaid ystyried anghenion grwpiau eraill hefyd yn y gymuned a'r hyn sy'n ymarferol ac yn ariannol bosibl. Weithiau mae costau sylweddol ynghlwm wrth agor drysau a chynnig lle.

Wrth inni gefnogi a monitro lleoliadau yn y Portffolio, gwnawn yn sicr eu bod yn gwneud gwaith blaengar a bod yn ganolbwynt creadigol i'w cymuned a gallai cynnig lle i ymarfer fod yn rhan o hynny.

## Argymhelliad 11

Dylai fod cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw ar gael – fel yr oedd ar gael drwy brosiect Forté a Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn y De – ond i Gymru gyfan. Dylai gynnwys swyddi megis rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai'r Cyngor ystyried yn gryf ariannu sefydliad cenedlaethol felly yn ystod ei adolygiad buddsoddi.

Rydym ni wedi cefnogi prosiect Forté (a'i raglen, Sonig, sy'n cynnwys Rhwydwaith yr Hyrwyddwyr Ifanc). Rydym ni'n sianeli ein cefnogaeth drwy Gyngor Rhondda Cynon Taf ers sefydlu'r prosiect.

Roeddem ni wedi rhoi costau Ymchwilio a Datblygu i ystyried model Cymru gyfan (Beacons) ac mae Cymru Greadigol wedi'i gefnogi hefyd. Rydym ni wedi'n harwain gan Forté a chanolbwyntio ar ddatblygiad a lles yr artist a'r effaith y cafodd hyn ar yr artistiaid ifanc ac ar eu tîm.

Yn yr hydref byddwn ni'n dechrau ein Hadolygiad Buddsoddi, ein hymarfer pum mlynedd i wahodd ceisiadau gan sefydliadau sy'n dymuno fod yn aelod o'r Portffolio a chael arian refeniw. Nid yw'n briodol inni ragweld diwedd y broses, ond bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chyrhaeddiad yn ganolog i'r canlyniad.

Ond yn y Portffolio presennol mae:

- Cerdd Gymunedol Cymru
- Celfyddydau Ieuencid Cymru
- Canolfan Gerdd William Mathias
- Tŷ Cerdd
- Cerdd Fyw Nawr
- trac

ac mae pob un yn datblygu cyfleoedd cerddorol i bobl ifanc.

## Argymhelliad 12

Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion fel bod artistiaid yn cael rhagor o gyngor a chymorth i ddatblygu gyrfa i'w cymryd at y lefel nesaf.

Sefydlodd y Cyngor Orwelion gyda BBC Cymru. Rydym ni o hyd yn ariannu'r prosiect yn flynyddol. Eleni yn arbennig roedd y cynllun wedi cefnogi'r nifer mwyaf o artistiaid duon a lleiafrifoedd ethnig ac enghreifftiau o gerddoriaeth MOBO. Rydym ni wedi ymdrechu i gynnal lefel ein harian pan na allai ein partner gynnal ei ochr ef. Eleni, roeddem ni wedi cynyddu'r arian i Orwelion a'u menter Lawnsio sy'n cynnwys grantiau i gefnogi talent gerddorol sy'n dod i'r amlwg i gael hyfforddiant.

Rydym ni wrth ein bodd bod Cymru Greadigol hefyd yn cefnogi Gorwelion eleni. Byddwn ni'n parhau i drafod cymorth yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gysylltiadau â'r diwydiant.

Tan eleni rydym ni hefyd wedi bod yn bartneriaid i Lywodraeth Cymru i gefnogi Momentwm Sylfaen PRS i artistiaid sydd ar fin croesi trothwy yn eu gyrfa. Cymru Greadigol sydd wedi arwain ar hyn ond byddwn ni'n archwilio llwybrau eraill i barhau i gynnal ein gwaith gyda'r ddau bartner. Byddwn ni'n adlewyrchu ein blaenoriaethau o ran cydraddoldeb a chyrraedd yn yr arian a roddwn.

O ran yr argymhellion eraill, megis porth gwe i gerddoriaeth, hoffem ni dynnu sylw at AM. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru mae'n datblygu llwyfan ar gyfer y celfyddydau digidol ac ar-lein, gan gynnwys cerddoriaeth, i dyfu cynulleidfa gartref sydd ar gynydd. Yn hytrach na chreu llwyfan newydd, dylem gefnogi cerddorion i ddefnyddio'n well y llwyfannau y mae'r gynulleidfa yn ei hoffi'n barod.

Wrth gwrs, fel y mae ar hyn o bryd, nid yw'r fargen fasnachol rhwng Prydain ac Ewrop yn caniatáu symudedd rhwydd i artistiaid. Felly bydd teithio yn Ewrop yn ddrutach a mwy cymhleth. Bydd hyn wedyn yn effeithio ar yr amrywiaeth o gerddorion a all berfformio yng Nghymru. Mae ein cydweithwyr yng Nghelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Celfyddydol eraill ym Mhrydain a chyrrff yn y maes i bwysu am newid a chynnig gwybodaeth ymarferol. Rhan bwysig o'r gwaith yw sefydlu Pwynt Gwybodaeth i gynghori am deithebau.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**  
**Ionawr 2021**

Nick Capaldi

Cyngor Celfyddydau Cymru

08 Mawrth 2021

Annwyl Nick,

Diolch am eich llythyr ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor: 'Clyw fy nghân: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw'. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn ichi am ymgysylltu â ni yn y maes gwaith hanfodol hwn.

Mae'n bwysig nodi mai dyma'r tro cyntaf i un o bwyllgorau'r Senedd geisio archwilio materion sy'n ymwneud â'r diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru. Nod y Pwyllgor oedd deall y sector pwysig hwn drwy raglen helaeth o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu a gynhaliwyd dros gyfnod o 18 mis.

Roedd dull y Pwyllgor o gasglu tystiolaeth yn cynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig, sesiynau tystiolaeth lafar, digwyddiadau wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, ymgysylltu ar-lein, a gwaith allgymorth mewn digwyddiad ar gyfer y diwydiant.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'ch sylwadau ynghylch yr angen i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cyfrannu at y broses o gasglu tystiolaeth. Er ein bod yn cydnabod bod modd gwneud mwy bob amser i glywed gan gynulleidfaoedd amrywiol ac anoddach eu cyrraedd, hoffwn eich sicrhau y cafodd y dull o gasglu tystiolaeth ei gynllunio gyda'r nod o roi cyfle i gynifer o bobl â phosibl gyfrannu.

Rydym yn cydnabod bod gennych brofiad sylweddol yn y maes hwn, felly byddem yn croesawu unrhyw syniadau penodol sydd gennych ynghylch sut y gallai'r Pwyllgor ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd amrywiol yn y dyfodol. Yn hynny o beth, hoffwn hefyd gynnig bod swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn cwrdd â chynrychiolwyr eich sefydliad i drafod hyn ymhellach a chofnodi unrhyw wersi ar gyfer y dyfodol.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

Wrth edrych ymlaen, rydym yn agosáu at y Diddymiad ac etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Hoffwn ddiolch i chi eto ar ran y Pwyllgor am eich parodrwydd i ymgysylltu â'n gwaith a gobeithio y bydd hyn yn parhau gyda'r pwyllgor sy'n ein holynu yn y Chweched Senedd.

Yn gywir,

*Bethan Sayed.*

Bethan Sayed AS

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





**SWYDDFA'R ARWEINYDD  
OFFICE OF THE LEADER**



**Eitem 22**

Neuadd y Sir  
Caerdydd,  
CF10 4UW  
Tel: (029) 2087 2088  
www.cardiff.gov.uk  
County Hall  
Cardiff,  
CF10 4UW  
Tel: (029) 2087 2087  
www.cardiff.gov.uk

Fy Nghyf / My Ref: CM45118

Dyddiad / Date: 27 January 2021

Bethan Sayed MS and Helen Mary Jones MS  
Culture, Welsh Language and Communications Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
CF99 1SN

Email: [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

Annwyl / Dear Chairs,

This letter is on behalf of the Cardiff Music Board of which I Chair, in response to the Turn Up the Volume - an Inquiry to Live Music Industry report that was published by the Senedd Culture, Welsh Language and Communications committee in December 2020.

I would like to thank you and the committee for undertaking this important inquiry and inviting me to present to the committee and to take part in the wider consultation.

We very much welcome the findings in the report, especially given the challenges that the music sector faces. The Music Board have discussed the report and its recommendations, and there are a number of issues they would like to raise.

In particular, the report does suffer from a lack of consultation with our diverse populations, in particular women, BAME and disabled groups, and it is disappointing that the views these populations are not adequately reflected in the report. The report shows little engagement with musicians, as it primarily focuses on infrastructure, and there is insufficient engagement with professionals and creatives in the sector. The consideration of the impact of Brexit on performers and venues is also noticeable omission given the substantial impact on the sector in Wales.

On the whole we welcome the recommendations in the report, although the large number of recommendations means that some critical issues could be overlooked. The report would therefore benefit from a more focussed and deliverable set of recommendations that recognise the resources partners can leverage. Officers in Cardiff are happy to work with their colleagues in Creative Wales as they consider the recommendations.

**GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI**

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU**

The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Tudalen y pecyn 7



We look forward to working with Creative Wales colleagues to support the ambitions for the live music industry in Wales, particularly given Cardiff's role as the Capital and delivering our aspirations as a music city and supporting a thriving Industry and live events sector.

Yn gywir,  
Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw Thomas', written in a cursive style.

**CYNGHORYDD / COUNCILLOR HUW THOMAS**  
**ARWEINYDD / LEADER**  
**CYNGOR CAERDYDD / CARDIFF COUNCIL**

Y Cyngorydd Huw Thomas

Arweinydd Cyngor Caerdydd a Chadeirydd Bwrdd Cerddoriaeth  
Caerdydd

08 Mawrth 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar ran Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor: 'Clyw fy nghân: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw'. Nododd y Pwyllgor eich gohebiaeth yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a godwyd.

Mae'n bwysig nodi mai dyma'r tro cyntaf i un o bwyllgorau'r Senedd geisio archwilio materion sy'n ymwneud â'r diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru. Nod y Pwyllgor oedd deall y sector pwysig hwn drwy raglen helaeth o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu a gynhaliwyd dros gyfnod o 18 mis.

Roedd dull y Pwyllgor o gasglu tystiolaeth yn cynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig, sesiynau tystiolaeth lafar, digwyddiadau wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, ymgysylltu ar-lein, a gwaith allgymorth mewn digwyddiad ar gyfer y diwydiant. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd o gael eich cyfraniad yn ystod tystiolaeth lafar a chyfraniad swyddogion Cyngor Caerdydd yn ystod ein digwyddiad i randdeiliaid yn y Tramshed. Hoffwn eich sicrhau y cafodd y dull o gasglu tystiolaeth ei gynllunio gyda'r nod o roi cyfle i gynifer o bobl â phosibl gyfrannu.

Mae'r Pwyllgor yn wedi ymrwymo i welliant parhaus ac er ein bod yn cydnabod bod modd gwneud mwy bob amser i glywed gan gynulleidfaoedd amrywiol ac anoddach eu cyrraedd, ni allwn dderbyn na chafodd rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol na'r cyhoedd fawr o gyfle i gyfrannu at waith y Pwyllgor. Rydym yn cydnabod bod gennych brofiad sylweddol yn y maes hwn, felly byddem yn croesawu unrhyw syniadau penodol sydd gennych ynghylch sut y gallai'r Pwyllgor ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd amrywiol yn y dyfodol. Yn hynny o beth, hoffwn hefyd gynnig bod swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn cwrdd â'ch swyddogion i drafod hyn ymhellach a chofnodi unrhyw wersi ar gyfer y dyfodol.



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

Gan droi at yr argymhellion yn yr adroddiad – mae nifer fawr ohonynt yn adlewyrchu'r dystiolaeth sylweddol a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad. Er ein bod yn nodi'ch pryderon ynghylch y risg o anwybyddu rhai materion, yn y pen draw dylai'r holl argymhellion fod â'r un pwys. At hynny, bydd dyletswydd arnom i gyd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am berfformiad o ran gweithredu'r argymhellion hyn.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn agosáu at y Diddymiad ac etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Hoffwn ddiolch i chi eto ar ran y Pwyllgor am eich parodrwydd i ymgysylltu â'n gwaith a gobeithio y bydd hyn yn parhau gyda'r pwyllgor sy'n ein holynu yn y Chweched Senedd.

Yn gywir,



Bethan Sayed AS

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Rhodri Talfan Davies  
BBC Cymru  
3, Sgwâr Canolog  
Caerdydd  
CF10 1FT

Dyddiad | Date: 11 Mawrth 2021

Pwnc | Subject: Gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y BBC

Annwyl Rhodri,

Roeddwn am ddiolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 4 Mawrth 2021 i drafod adroddiad blynyddol a chyfrifon y BBC. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd yn falch o glywed gan Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn ato er gwybodaeth.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gynnig rhoi mwy o fanylion i'r Pwyllgor ar ychydig o bwytiau.

### Amrywiaeth gweithlu'r BBC

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud bod ffigurau amrywiaeth y gweithlu yn yr adroddiad blynyddol yn cael eu cyflwyno ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn hytrach na'r cenhedloedd unigol a gwnaethoch gynnig rhannu ffigurau gweithlu Cymru â ni.

Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai data ar gael i'r cyhoedd graffu ar berfformiad BBC Cymru yn hyn o beth. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r BBC ddarparu i ni, a chyhoeddi'n barhaus – naill ai Adolygiad Rheoli Blynyddol neu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BBC Cymru – y data presennol ar amrywiaeth staff ar y sgrin ac oddi arni. Hefyd, a allwch ddarparu targedau ar gyfer gwella cynrychiolaeth staff ar y sgrin ac oddi arni a thargedau penodol sy'n ymwneud ag uwch dimau?

### Cyrchu cynnwys y BBC ar alw

Gwnaethom drafod y ffigurau ar gyfer cyrchu cynnwys y BBC ar iPlayer. O gofio poblogrwydd defnyddio cynnwys fideo ar-lein, hoffai'r Pwyllgor allu craffu ar y data'n fanylach. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r BBC yn cyhoeddi – naill ai yn Adolygiad Rheoli neu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BBC Cymru – amrywiaeth o ddata i alluogi'r perfformiad hwn i gael ei asesu'n annibynnol, gan gynnwys:



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

 0300 200 6565

- Cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn mewn meysydd allweddol o berfformiad ar-lein;
- Meincnodau diwydiant priodol i alluogi perfformiad y BBC yn y meysydd hyn i gael ei asesu'n annibynnol.

### **Gwariant y BBC yng Nghymru**

Mewn ymateb i gwestiwn am y ffaith bod ffigurau a ddangosir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dangos y gwariodd y BBC, yn 2019-20, bron 70 y cant yn fwy ar gynnwys lleol Saesneg yn yr Alban nag yng Nghymru, gwnaethoch ddweud y canlynol:

'We are looking at a commitment in Wales that straddles two languages, whereas in Scotland, the primary investment is all into English language TV. So, it depends how you want to look at it. If you want to look at spend per head, it is certainly the case that the expenditure in Wales is ahead of where we are in Scotland. There are many different ways of cutting it, but in terms of absolute spend, they are broadly comparable, it's just we are obviously, serving in both languages.'

Nid wy'n argyhoeddedig mai asesu gwariant yng Nghymru o ran gwariant y pen yw'r ffordd orau o asesu gwerth am arian i gynulleidfaoedd Cymru. O gofio bod yn rhaid i'r BBC ddarparu ar gyfer dwy iaith, mae'n anochel y caiff adnoddau eu hestyn ymhellach yng Nghymru.

Mae'r aelodau'n awyddus i'r anghyfartalwch hwn gael ei leihau, a byddwn yn argymhell bod pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn mynd ar drywydd y mater hwn.

Yn gywir,



Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu



Rt Hon Oliver Dowden CBE MP  
Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport

Dyddiad | Date: 11 March 2021

Pwnc | Subject: Licence fee determination

Dear Oliver,

The Culture, Welsh Language and Communications Committee carried out annual scrutiny of BBC Cymru Wales at our meeting on 4 March 2021. After the meeting, Members raised concerns about the process for deciding the licence fee, which I wanted to share with you. I would be grateful if you could consider the following issues during your discussions on the licence fee from 2022:

The value of the next licence fee to the BBC should, at the very least, keep up with inflation. It is not acceptable that the BBC has faced an effective cut of 30% to UK public services over the last decade.

The BBC, and public service broadcasting, has an enhanced role in Wales given the lack of commercial media. As such the committee encourages the UK Government to make a generous agreement with the BBC to enable them to fulfil key roles for the BBC in Wales, including:

- National and local news coverage. The pandemic has highlighted the need for a well-funded media that can accurately report divergent policies across UK nations;
- Reflecting Welsh life to Wales and beyond;
- Stimulating the creative industries in Wales. By supporting the BBC's ability to make this valuable contribution to Wales' economy it would endorse the UK Government's stated desire to "level up" the economy of the UK.

Looking beyond the current licence fee settlement period, it is worth pointing out that the UK, including Wales, has not been served well by the current system, where the UK Government can make decisions about the licence fee with little democratic oversight. The BBC and S4C, who together provide the bulk of broadcast content specifically for Welsh audiences, have seen their funding substantially reduced over the last decade. The Committee is recommending future licence fee decisions should be made by an independent licence fee commission, with distinct Welsh representation.

I note the recent [petition on television licensing](#) in which the petitioner argued that 'the BBC licence fee is outdated and is not fit for today's society, preferring to see a subscription service.' I note that one of the responses given by the Minister for Media and Data, John Wittingdale MP, during the discussion was:



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)


☎ 0300 200 6565

'Before we can consider moving to subscription as an element of the BBC's funding, everybody will need to be capable of receiving video on demand. That, I believe, will come. The roll-out of broadband is very fast, we will reach universal coverage, and there will come a time when it will be possible for us to move towards a full subscription service for everybody, but that time has not yet arrived.'

This is certainly true for Wales which lags behind the rest of the UK when it comes to access to superfast broadband provision. However, I feel there are more fundamental reasons why moving funding to a subscription model for public service broadcasting will disadvantage the people of Wales. A subscription model fails to address the purpose of public service model operated by the BBC and S4C, which is to provide content which we, as a society, deem necessary, but the free market does not provide. Replicating the business models of Netflix and Amazon Prime is no way to fill the gaps in provision that their services leave behind.

I would be grateful if you could consider the issues raised in this letter and reply to me by 2 April in order for Members to consider your response before the end of the Senedd term.

Yours sincerely,



Bethan Sayed MS

Chair of the Culture, Welsh Language and Communications Committee





Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

9 Mawrth 2021

Annwyl Dafydd,

### **Arian ychwanegol Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant**

Yn dilyn cyhoeddi Cyllideb y DU, hoffwn i, fel chwithau groesawu'r newyddion y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'r cenhedloedd datganoledig yng ngoleuni buddsoddiad o £300 miliwn Llywodraeth y DU yn y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn Lloegr.

A allech gadarnhau beth yw cyfran Cymru o'r cyllid hwn, p'un a ydych yn fodlon bod hwn yn cynrychioli cyllid canlyniadol Barnett yn llawn, ac a fydd cyfanswm y swm a ddyrennir yn cael ei ymrwymo i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yng Nghymru?

Gwyddom fod y sector hwn wedi colli incwm yn enbyd ers dechrau'r pandemig bron i flwyddyn yn ôl. O ystyried y gallai gymryd rhai misoedd eto i aildechrau gweithgareddau'n llawn, hoffwn gael eich sicrwydd y bydd cyfanswm yr arian a ddyrennir i Gymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector diwylliant yn ddi-oed.

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol i sicrhau nad yw ein sefydliadau celfyddydol yn gorfod cau eu drysau am byth neu ddiswyddo aelodau staff gwerthfawr.

Rydych wedi egluro wrth y Pwyllgor yn y gorffennol nad yw'r cyllid a ddyrannwyd i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y sector. A



ydych felly'n cynllunio i ddyrannu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, yn ychwanegol at y cyllid canlyniadol Barnett diweddaraf?

Wrth gloi, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch Adran am bopeth yr ydych wedi'i wneud drwy gydol y pandemig hwn. Rwy'n gwybod y byddwch yn cytuno y dylid cyfeirio'r holl arian sydd ar gael i'r sector cyn gynted ag sy'n bosibl, a'i ddsbarthu i'r sefydliadau a'r unigolion hynny y mae eu bywoliaeth mewn perygl.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

*Bethan Sayed.*

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon